**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

**At sylw'r sawl a fynn**

29 Mawrth 2019

Effaith y prosiect Amodoldeb Lles

Fi yw Cadeirydd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydym yn bwyllgor trawsbleidiol sy'n cynnwys Aelodau etholedig Cynulliad o bob rhan o Gymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Ein cylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): llywodraeth leol; tai; adfywio, cydlyniant a diogelwch cymunedol; trechu tlodi; cyfle cyfartal a hawliau dynol.

Ar ddechrau'r Cynulliad, nodwyd tlodi fel maes allweddol ar gyfer ein tymor pum mlynedd. Rydym wedi ymgymryd ag ystod o waith yn edrych ar y gwahanol agweddau ar dlodi yng Nghymru. Fel rhan o hyn, darparodd y Prosiect Amodoldeb Lles dystiolaeth ysgrifenedig a llafar yn 2017 i'n hymchwiliad, sef Gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel. At hynny, cynhaliwyd cyfarfod â'r Cyfarwyddwr yn 2018 i drafod canfyddiadau terfynol y prosiect.

Un o'n llinynnau ymchwilio yn yr ymchwiliad hwn oedd y rôl y mae budd-daliadau lles yn ei chwarae wrth gefnogi pobl ag incwm isel, a dyma lle roedd y dystiolaeth Amodoldeb Lles yn chwarae rhan bwysig. Mewn gwirionedd eu tystiolaeth oedd ein ffynhonnell allweddol wrth ddod i'n casgliadau ar yr elfen hon o'r gwaith.

Cawsom dystiolaeth lafar gan Dr Sharon Wright a Dr Lisa Scullion ar 21 Medi 2017. O ganlyniad uniongyrchol i'r dystiolaeth a roddwyd ganddynt, gwnaethom ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn amlinellu ein pryderon ynghylch nifer o

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

elfennau o ran gweithredu’r Credyd Cynhwysol. Hefyd yn rhannol o ganlyniad i'r dystiolaeth hon, mewn ymchwiliad ar wahân i gysgu ar y stryd, gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisio pwerau dros weinyddu’r Credyd Cynhwysol yn debyg i'r rhai yn yr Alban.

Yn yr adroddiad ar wneud i'r economi weithio, gwnaethom adeiladu ar yr argymhelliad hwn a galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal a chyhoeddi dadansoddiad o'r manteision a'r risgiau o ddatganoli'r pwerau hyn.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod y ddau argymhelliad hyn ar y pryd, bu newid ym marn Llywodraeth Cymru wedi hynny, a allai fod yn rhannol o ganlyniad i newid yn y Prif Weinidog. Wrth ymateb i gwestiwn a ofynnais yng Nghwestiynau’r Prif Weinidog ym mis Ionawr eleni, dywedodd y Prif Weinidog newydd ei fod yn teimlo bod yr amser wedi dod i ddechrau trafod yr achos dros ddatganoli pellach.

Yn rhannol o ganlyniad i'r dystiolaeth a gawsom o'r prosiect Amodoldeb Lles, rydym bellach wedi penderfynu gwneud darn pellach o waith, gan ystyried sut y gallai datganoli rhai pwerau dros fudd-daliadau lles weithio, a pha fanteision neu risgiau a ddaw yn sgil hynny. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y byddwn, fel rhan o'r gwaith hwn, yn ceisio gwneud defnydd o waith rhagorol y prosiect Amodoldeb Lles.

Yn gywir

John

John Griffiths AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.